NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Ysgogiad mewngyhyrol y diaffram ar gyfer methiant anadlol cronig sy'n ddibynnol ar wyntiedydd a achosir gan glefyd motor niwron

27 Medi 2017

Ni ddylid defnyddio'r driniaeth hon. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'n ddiogel ac nad yw'n gweithio ar gyfer methiant anadlol cronig sy'n ddibynnol ar wyntiedydd a achosir gan glefyd motor niwron.

Mae angen i rai cleifion sydd â chlefyd motor niwron (a elwir hefyd yn sglerosis ochrol amyotroffig neu ALS) gael gwyntiedydd mecanyddol er mwyn eu helpu i anadlu. Mae ysgogiad mewngyhyrol y diaffram yn cynnwys llawdriniaeth abdomenol twll y clo (laparosgopi) er mwyn mewnosod electrodau yn y diaffram. Bydd gwifrau o'r electrodau yn rhedeg o dan y croen i system ysgogiad trydanol sy'n gweithio ar fatri, sy'n achosi i'r diaffram gywasgu fel mewn proses anadlu arferol. Nod y driniaeth yw cryfhau'r diaffram, gan alluogi cleifion i anadlu heb wyntiedydd a gwella ansawdd eu bywydau.

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am opsiynau triniaeth eraill.

Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

ISBN 978-1-4731-2684-8

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights